Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 31ain Gorffennaf, 2018 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |

| | |
|---|---|
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 03 GORFFENNAF | | | 5 - 12 |
| 6 | ADOLYGU LEFEL ADNODDAU GWASNAETH GWARCHOD Y CYHOEDD | Cyng. Dafydd Meurig | Gareth Jones | 13 - 29 |
| 7 | ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH | Cyng. Nia Jeffrys | Geraint Owen | 30 - 39 |
| 8 | RHYDDHAD DEWISIOL RHAG TRETH CYNGOR I BOBL IFANC YN GADAEL GOFAL | Cyng Peredur Jenkins a Cyng. Dilwyn Morgan | Dafydd L Edwards | 40 - 48 |
| 9 | CAU ALLAN Y WASG AR GYHOEDD<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym maragraff 12 o Atodiad 12A o Deddf Llywodraeth Leol 1972<br><br>Gofynnir i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:<br>14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd<br>(a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu.<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i aelodau gymryd | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | trosolwg o gais am ymddeoliad cynnar aelod o uwch reolaeth y Cyngor. Er bod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth o drefniadau o'r fath er ystyried hyn mewn modd priodol mae angen hefyd derbyn gwybodaeth am gyflogeion unigol. Gall cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn tanseilio hyder aelodau staff i ddod a cheisiadau ymlaen i'w hystyried a thramgwyddo hawliau unigol, yn groes i'r budd cyhoeddus. | | | |
| 10 | UWCH REOLAETH Y CYNGOR | | Dilwyn Williams | |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 3 GORFFENNAF 2018**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Eitem 6: Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Arfon), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol)
Eitem 7: Geraint Owen (Pennaeth Cefogaeth Gorfforaethol), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 9: Helen Mary Parry (Rheolwr Gwasnaeth)
Eitem 11: Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasnaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)
Eitem 12: Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes), Mari Wynne Jones (Uwch Reolwr Galluogi)
Eitem 13: Ian Jones (Uwch Reolwr Cefngoaeth Gorfforaethol), Catrin Love (Rheolwr Gwasnaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Peredur Jenkins.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Bu i'r Aelod Lleol ar gyfer yr Eitem 6 – Cyng. Richard Medwyn Hughes – ddatgan buddiant gan ei fod yn un o Lywodraethwyr Ysgol Coed Mawr ac Ysgol Glanadda wedi ei benodi gan y Cyngor. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

Bu i'r Cynghorydd Dafydd Meurig ddatgan buddiant oherwydd cysylltiad a darpariaeth meithrin ar safle Ysgol y Faenol. Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MEHEFIN

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 12 Mehefin 2018, fel rhai cywir

## 6. AD-DREFNU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YM MANGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Roberts

**PENDERFYNWYD**

- Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coed Mawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.
- Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig uchod yn unol â gofynion Adran 48 o ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran wedi sicrhau buddsoddiad o £12.7miliwn ar gyfer moderneiddio darpariaeth addysg ym Mangor. Nodwyd fod yn gyfle i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael. Ychwanegwyd yn ystod y Cabinet ym mis Mawrth y penderfynwyd fod modd cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau ysgolion Glanadda a Choedmawr a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd.

Nodwyd fod yr ymatebion wedi codi pryder ynglŷn â materion traffig. Nodwyd y byddai cynllun penodol yn edrych ar hyn ac y bydd trafodaeth bellach ar y mater. Mynegwyd pryderon am faterion Ieithyddol ac am barhad ethos y Gymraeg yn Ysgol y Garnedd, ond ychwanegwyd fod ymateb gan Estyn yn nodi fod gan Ysgol y Garnedd brofiad llwyddiannus o hybu a defnyddio'r Gymraeg o fewn ysgol.

Mynegwyd fod y pennaeth dros dro sydd yn Ysgol Glanadda a Choedmawr o fis Medi ymlaen yn mynd i roi 50% o'i hamser i ddysgu ac o ganlyniad mae angen cysoni'r ddarpariaeth sydd i'w gael ar hyn o bryd.

Nododd yr Aelod Lleol ei fod yn anghytuno gyda'r syniad o fynd am opsiwn 3 yn hytrach 'nag opsiwn 10. Nododd y bydd y ddwy ysgol ar un safle ym mis Medi, a'u bod mewn adeilad o ansawdd da iawn. Ychwanegodd fod Glanadda wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg a bod y ddwy ysgol wedi symud i fandiau lliw uwch yn ddiweddar.

Atebwyd y sylwadau gan nodi fod yr adran yn ceisio lleihau llefydd gweigion

mewn ysgolion a sicrhau fod Penaethiaid yn rhydd am hyd at 80% o'i hamser. Ychwanegwyd fod nifer uchel o blant ardal Coedmawr yn mynd i ysgolion eraill yn y dalgylch yn hytrach nag Ysgol Coedmawr a Glanadda.

Nododd Aelod Lleol nad yw trigolion Rhodfa Penrhos yn hapus gyda'r posibilrwydd o ddefnyddio eu ffordd er mwyn adeiladu yr ysgol newydd. Nodwyd fod y lon yn un brysur gyda cerddwyr ac nad oedd yn un sydd yn gallu cael Fan Ailgylchu yno, heb son am loris yn cario deunyddiau adeiladu. Nodwyd fod hyn yn fater cynllunio a nad oes penderfyniad wedi ei wneud ar y ffordd fydd yn cael ei defnyddio er mwyn cyrraedd safle'r ysgol newydd. Bydd y sylwadau yma yn cael ei hystyried pan yn edrych ar y materion cynllunio.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod niferoedd yr ymgynghoriad yn isel, a holwyd ble odd Ysgol Faenol yn y darlun llawn. Nodwyd fod Ysgol Faenol yn rhan annatod o'r cynllun i foderneiddio addysg ym Mangor, ond fod hi yn drefn wahanol oherwydd ei bod yn Ysgol sydd yn gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru. Er fod yna risg fechan o redeg y ddau gynllun ar wahân, nid oedd yn un sylweddol o gofio'r buddion fyddai'n deillio hefyd i Ysgol y Faenol.
- Mynegwyd y bydd safle newydd yr ysgol â 1,200 o blant arni gan fod Ysgol y Friars ar yr un llecyn o dir. Ond nodwyd fod safon adeilad Ysgol y Garnedd yn annerbyniol, a ddim yn ffit i bwrpas bellach. Ychwanegwyd fod angen adnodd newydd er mwyn cael ansawdd gwell ar addysg a rhoi cyfle gwell i'r disgyblion.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2017/18

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2017/18 ac i roi argymhelliad i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol yn mesur perfformiad y Cyngor. Ychwanegwyd fod eleni yn edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi cyflawni gan Gynllun Strategol y Cyngor ers 2013, cyfnod ble gwelwyd gostyngiad ariannol o £26miliwn. Mynegwyd fod y Cyngor yn ymfalchïo fod gwasanaethau wedi eu cynnal o dan gymaint o her ariannol.

Mynegwyd fod yr adroddiad nid yn unig yn adrodd ar lwyddiannau'r Cyngor ond yn amlygu'r meysydd ble nad yw'r Cyngor yn perfformio cystal.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd wrth edrych ar yr adran Oedolion, Iechyd a Llesiant fod y pwyslais ar waith integredig. Er bod llawer o waith wedi ei wneud,

mynegwyd fod llawer mwy i'w wneud yn y dyfodol.

- Mynegwyd fod yr Adran Addysg yn gyffredinol yn hapus â'i pherfformiad yn ystod y flwydd er yn siomedig â chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen; er hyn, mae'r adran yn edrych ar sut i symud ymlaen. Ychwanegwyd fod £56miliwn wedi ei wario ar adeiladau newydd i ysgolion Gwynedd ac mae hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i addysg.
- Diolchwyd i staff am eu gwaith caled a nodi fod yr adroddiad yn cyfarch Amcanion y Ddeddf Llesiant.

## 8. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - DIWEDDARIAD CYNNYDD A TREFN LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd i:

a) Nodi a chroesawu cynnydd datblygiad cais y Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth
b) Bod y Cytundeb Llywodraethu, cam cyntaf a sefydlu Cydbwyllgor ar gyfer y Cynllun Twf yn derbyn cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i gadarnhad y Cyngor Llawn (yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf, 2018) o'r trefniadau ar gyfer Craffu.
c) Bod drafft terfynol o Gais y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2018 i'w gymeradwyo cyn bod Penawdau'r Telerau yn cael eu cytuno gyda Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru.
d) Bod hawl yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd i wneud mân newidiadau i'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf drafft yn ôl yr angen er cwblhau'r cytundeb.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gweithdai er mwyn trafod y Cynllun Twf newydd wedi cael eu cynnal yng Ngwynedd. Ychwanegwyd fod yr aelodau etholedig wedi bod yn herio'r cynllun. Nodwyd mai adroddiad cynnydd oedd yr adroddiad hwn a bod trafodaeth ym mynd rhagddi er mwyn creu cytundeb cyfreithiol rhwng y 6 sir.

Nodwyd y bydd y drafodaeth am Gyfundrefn Craffu'r Cynllun yn cael ei gynnal yn y Cyngor Llawn ddiwedd y mis. Ychwanegwyd fod bwriad o gael Fforwm Craffu a fydd ar y cyd rhwng y 6 sir, ond bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol. Mynegwyd fod y papur hwn yn mynd i'r 6 Cabinet ar draws y Gogledd, ac y bydd adroddiad pellach ar Twf yn dod yn nol i'r Cabinet ym mis Medi.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd y clod fod y 6 wedi cyd-dynnu i gyflawni'r llun mawr. Ychwanegwyd fod y cytundeb yn gofyn i Wynedd weithredu yn y rôl

arweiniol tan Ebrill 2019, ond fod lletya'r Cynllun yn weithredol yn dilyn hyn i'w drafod. Nid oeddem yn rhagweld fod yna unrhyw risgiau sylweddol o fod yn gwneud hynny tan Ebrill 2019.

## 9. YMATEB CYNGOR GWYNEDD I DDYFODIAD DEDDFWRIAETH DATA DEWYDD

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Mabwysiadu'r polisi a'r drefn ddiwygiedig fel rhan o'r gwaith o gyfarch gofynion newydd ym maes diogelu data.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod newid mawr wedi bod yn y fframwaith sydd mewn lle yn dilyn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dod i rym ac ar yr un dyddiad cyflwynwyd Deddf Diogelu Data 2018. Nodwyd mai pwrpas y rheolau newydd yw mynnu fod sefydliadau yn medru profi cydymffurfiaeth a hefyd rhoi mwy o hawliau i unigolyn.

Mynegwyd fod nifer o newidiadau yn rhan o'r ddeddfwriaeth newydd gan nodi fod gan y Cyngor bellach Swyddog Diogelu Data, a fydd yn monitro cydymffurfiaeth gyda'r ddeddf a gweithredu fel pwynt cyswllt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r cyhoedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod angen sicrwydd fod y cyngor yn cyflawni gofynion y ddeddf. Esboniwyd fod gwaith da wedi ei wneud ond y byddai gwaith monitro yn barhaus drwy'r gyfundrefn moniotro perfformiad a'r asesiadau llywodraethiant a wneir bob blwyddyn gan y Grwp Llywodraethu er mwyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

## 10. COD YMARFER CYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNIO CYFLENWI

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd i ymrwymo i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cod

Ymarfer ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Ychwanegwyd nod y cod yw sicrhau fod arferion cyflogaeth dda yn bodoli i holl weithiwr ym mhob cam o'r gadwyn cyflenwi. Nodwyd fod y cod yn ymdrin â materion cyflogaeth megis caethwasiaeth fodern a chyflog byw.

Mynegwyd drwy wireddu'r holl amcanion y Cod ymarfer mae'n sicrhau fod yr arfer gorau yn cael ei ddilyn ac yn chwarae ei ran i ddileu unrhyw arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.

Nodwyd fod llawer o waith wedi ei wneud ac mai dechrau'r daith yw hon. Cefnogwyd yr ymrwymiad i'r maes.

## 11. CYNLLUN DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6 o Ddeddf Amgylchedd Cymru, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno dyletswydd ehangach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru. Ychwanegwyd fod cynllun yn ei le yng Ngwynedd er mwyn cydymffurfio â'r ddeddf a manylwyd ar beth oedd nod Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd.

Ychwanegwyd fod gwaith ymgynghori wedi ei wneud ar y ddogfen gyda holl adrannau'r Cyngor a gyda'r Cynghorydd Angela Russell yn ei rôl fel Pencampwr Cefn Gwlad ac Amgylchedd.

## 12. LLE I ALW YN GARTREF: EFFAITH A DADANSODDIAD

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. W Gareth Roberts

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo camau pellach mewn ymateb i'r arolwg dilynol sydd wedi ei wneud gan y Comisiynydd Pobl Hŷn o'r adroddiad gwreiddiol - Lle i'w Alw'n Gartref.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr eitem yn ymateb i'r arolwg dilynol sydd wedi ei wneud gan y Comisiynydd Pobl Hŷn o'r adroddiad gwreiddiol - Lle i Alw'n Gartref. Bu i'r Comisiynydd Pobl Hŷn gyflwyno canfyddiadau o'i hadolygiad o Gartrefi Gofal yn 2014. Amlygwyd yn glir yr angen i newid a sicrhau fod ansawdd bywyd y bobl hyn yn ganolog i'r system gofal.

Ychwanegwyd fod y Comisiynydd wedi bod gofyn am wybodaeth a oedd yn tystiolaethu fod yr hyn a gytunwyd arno wedi ei weithredu yn Ionawr 2017. Ychwanegwyd fod yr adroddiad wedi cydnabod fod camau pwrpasol a calonogol wedi eu cymryd a bod y trefniadau yn eu lle o ran Adroddiad Ansawdd Blynyddol. Mynegwyd fod y dadansoddiad yn un trylwyr a theg. Nodwyd fod yr adan yn teimlo eu bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir ond fod angen gwella ar gasglu gwybodaeth a thystiolaethu i'r dyfodol.

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Iechyd Diogelwch a Llesiant.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai hwn yw y tro cyntaf i adroddiad o'i fath ddod i'r Cabinet. Nodwyd mai cyfle i roi darlun i'r Cabinet o'r sefyllfa gyfredol o ran rheolaeth iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Nodwyd fod gwaith sylweddol wedi ei wneud i rymuso rheolwyr i fod yn arwain ar reoli'r risgiau o fewn y Gwasanaeth. O ganlyniad i hyn mae'r rôl fwy clir i'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesian fel un ymgynghorol.

Ychwanegwyd fod y Cyngor yn dal y wobr Aur o ran safon iechyd corfforaethol, yn dilyn ail asesiad llawn gan swyddogion o'r Cynulliad. Mynegwyd fod ystadegau straen a'r cyfeiriadau i wasanaeth cwnsela wedi codi, ond credir fod hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y gwaith o hybu iechyd meddwl yn y gweithle.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod nifer y damweiniau wedi codi yn gyson dros y blynyddoedd ond esboniwyd mai ymwybyddiaeth o'r angen i adrodd oedd y rheswm. Ychwanegwyd fod y nifer y methiannau agos wedi codi yn ogystal ac mae hyn oherwydd staff yn fwy parod i adael i'r tîm wybod.
- Nodwyd fod yr adran wedi cael braw gyda ffigwr nifer cyfeiriadau MEDRA am y chwarter diwethaf, ond mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn codi ymwybyddiaeth. Yn ychwanegol nodwyd ei fod yn

adlewyrchu newid diwylliant ac mae staff yn fwy parod i nodi straen ar ffurflen salwch yn hytrach na thicio ‘salwch arall’.

**14. BLAEN RAGLEN Y CABINET**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i’r cyfarfod.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd y flaen raglen.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:40

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **31 Gorffennaf 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gareth Jones, Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **34092** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adolygiad lefel adnoddau Gwarchod y Cyhoedd** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Fod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad.

1.2 Fod y Cabinet yn cymeradwyo cyfeirio £70,000 o incwm presennol yr adran i gynnyddu adnodd staffio er cyfarch gofynion gorfodaeth cyfraith bwyd yn unol a'r adroddiad ac felly'n caniatau i'r Adran Amgylchedd:

- wireddu un o'i gynlluniau arbedion arfaethedig (yn ymwneud ag incwm yn sgil trefniadau cau ffyrdd) yn gynnar (h.y. gweithredu yn ystod 2018/19 yn hytrach nac erbyn 2019/20).
- gynhaeafu £70,000 o incwm ychwanegol o'r cynllun arbediad hwnnw yn adrannol, ar gyfer gweithredu trosglwyddiad cyllideb parhaol er mwyn ariannu 2 swydd yn y gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Yn sgil archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn Chwefror 2016, a'i harchwiliad dilynol yn Chwefror 2018, maent wedi codi pryderon ynglŷn â'r lefel o adnoddau sydd gan y Cyngor, er mwyn cyflawni ei wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd o safbwynt hylendid a safonau bwyd. Ategwyd y pryderon hyn mewn llythyrau dilynol gan yr ASB ac mewn cyfarfod diweddar gyda'r Prif Weithredwr, Uwch swyddogion a'r Aelod Cabinet.

2.2 Rydym yn cydnabod pryderon yr ASB ac yn gwerthfawrogi ei pharodrwydd i'n cynghori ar ddarpariaeth y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd wrth edrych i'r dyfodol. Er hyn, mae'n hanfodol ein bod yn edrych yn ofalus ar y lefel tebygol o adnodd ychwanegol sydd ei angen ar gyfer cwrdd â'r diffyg, yn ogystal ag edrych ar sut rydym am greu'r adnodd ychwanegol, heb fod yna sgil effeithiau annerbyniol pellach i'r Cyngor.

2.3 Gofynnir am benderfyniad oherwydd:

- Y risgiau posib i drigolion Gwynedd ac i'r Cyngor os nad ydym yn rhoi mesurau cadarnhaol yn eu lle er mwyn darparu adnoddau ychwanegol i geisio cyflawni'r gofynion cyfreithiol o safbwynt hylendid bwyd a safonau bwyd.

- Bod y sefyllfa sydd wedi codi o ran diffyg adnoddau yn bennaf gysylltiedig â'r toriadau sydd wedi ei gweithredu dros y blynyddoedd yng Ngwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor.

- Nad ellir cyfeirio adnoddau presennol o fewn y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd nac ychwaith o adrannau eraill y Cyngor, er mwyn cyfarch y diffyg.

## 3. CYFLWYNIAD

### Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

3.1. Mae'r pryderon yn ymwneud a diffyg adnoddau ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd yn fater sydd wedi ei amlygu'n benodol yn sgil archwiliadau'r ASB yn Chwefror 2016 ac wedyn yn 2018, yn ogystal â gohebiaeth gan yr ASB ers hynny. Ceir cadarnhad o'r pryderon hynny yn y llythyr dyddiedig o'r 11 Ebrill 2018 gan yr ASB, a gyfeiriwyd at y Prif Weithredwr (Gweler atodiad 1).

3.2. Mae'r llythyr gan yr ASB (gweler atodiad 1) yn cyfeirio at Gynllun Gweithredu a gytunwyd gyda'r Cyngor yn dilyn ei archwiliad, oedd yn cynnwys 34 o argymhellion oedd angen i'r Cyngor eu cyfarch dros gyfnod penodol. Maent yn tynnu sylw'n benodol tuag at yr argymhellion oedd yn ymwneud a darpariaeth adnoddau ar gyfer ymgymryd â gwaith ymyriadau / archwiliadau yn y meysydd gwaith hylendid a safonau bwyd. Mae'r argymhellion penodol yn y Cynllun Gweithredu yn cynnwys:

***Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.***

Yn gysylltiedig a'r uchod mae dau argymhelliad pellach sydd yn nodi:

***Sicrhau fod ymyriadau / arolygiadau hylendid bwyd yn cael cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.***

***Sicrhau y caiff ymyriadau / arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.***

3.3 Canlyniad i'r diffyg adnodd felly yw nad yw'r ymyriadau / arolygiadau ar gyfer busnesau bwyd Gwynedd, o safbwynt hylendid bwyd nac ychwaith safonau bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r amlder gofynnol.

## 4. RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD

### Beth yw'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â gorfodi cyfraith bwyd?

4.1 Prif bwrpas y trefniadau o ran **hylendid bwyd** yw sicrhau bod bwyd a diod a werthir i'w fwyta a'i yfed gan bobl, syn cael ei gynhyrchu, ei storio, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir, yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr. Mae amlder yr ymyriadau / arolygiadau sydd angen eu cynnal ar fusnesau bwyd yn cael eu blaenoriaethu yn ddibynnol ar y categori risg sydd wedi ei ddynodi i'r busnes yn flaenorol. Mae'r amlder sydd yn ofynnol yn amrywio o ymyriadau / arolygiadau pob 6 mis i fusnesau sydd yn y categori risg uchaf (sef A), i strategaeth bob 3 mlynedd ar gyfer busnesau sydd yn y categori risg isaf (sef E).

4.2 Mae'r cyfrifoldebau o safbwynt **safonau bwyd,** yn ymwneud a sicrhau bod bwyd a gynhyrchir a / neu gwerthir oddi fewn i'r Sir yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Mae hefyd cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau fod busnesau bwyd yn darparu gwybodaeth gyflawn yn ymwneud ag alergau sy'n gynhwysion yn eu cynnyrch i gwsmeriaid. Mae amlder yr ymyriadau / arolygiadau yma hefyd yn cael eu cynnal ar sail categori risg y busnes sydd yn amrywio o amlder 12 mis (isafswm) ar gyfer categori risg A (y risg uchaf), i bob 5 mlynedd ar gyfer busnesau yng nghategori risg C (y risg isaf).

**Sut y darparir y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yng Ngwynedd?**

4.3 Darparir y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd gan Uned Lles, Iechyd a Diogelwch y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (Adran Amgylchedd), gyda mewnbwn hefyd gan swyddogion yr Uned Safonau Masnach. Yn Ebrill 2018 roedd y Cyngor yn gyfrifol am orfodi gofynion diogelwch bwyd mewn 2,155 o fusnesau bwyd yng Ngwynedd.

4.4 Mae darparu'r gwasanaeth diogelwch bwyd yn cynnwys rhaglennu archwiliadau ymlaen 12 mis yn flynyddol ac ar gyfer 2018/19 mae 1067 o archwiliadau hylendid bwyd a 601 o archwiliadau safonau bwyd wedi ei rhaglennu. Yn ogystal â chynnal archwiliadau'n yn unol â'r rhaglen flynyddol mae'r gwaith hefyd yn cynnwys:

- Sefydlu cofrestr gyfredol o bob eiddo bwyd o fewn y Sir
- Ail ymweld, lle bo angen yn dilyn archwiliadau sydd wedi ei rhaglennu
- Ymchwilio i gwynion fod busnesau ddim yn cydfynd a'r gofynion perthnasol a gorfodi'r cyfraith bwyd lle bo angen (gall hyn olygu erlyn mewn rhai achosion)
- Samplo bwyd a dwr fel than o archwiliadau busnesau
- Delio gyda materion iechyd a diogelwch sydd yn codi o archwiliadau hylendid a safonau bwyd ac archwilio i achosion iechyd a diogelwch yn y gweithle
- Archwilio i achosion o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr ac afiechydon heintus, ar wahân i achosion o wenwyn bwyd
- Awdurdodi sefydliadau bwyd penodol a goruchwylio eu trefniadau drwy ddilyn rhaglen archwiliadau penodol.
- Cynnal y drefn sgorio hylendid bwyd yng Ngwynedd
- Rhoi cyngor i fusnesau ac hyrwyddo diogelwch bwyd

4.5 Ar gyfer 2018/19 rhwng swyddogion yr Uned Lles, Iechyd a Diogelwch a'r Uned Safonau Masnach mae gyfystyr a 11.75 o swyddogion llawn amser yn cyfrannu tuag at y dyletswyddau sydd wedi ei nodi uchod. Pwysleisir fod y gwaith a wneir yn arbenigol gyda'r angen am gymhwysterau perthnasol er mwyn ymgymryd a'r gwaith.

4.6 Fel rhan o'r toriadau a weithredwyd yn sgil her Gwynedd yn 2016-17, penderfynodd y Cyngor dorri 2 swydd yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, oedd yn cynnwys Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a Swyddog Iechyd a Diogelwch. Hefyd, yn ystod y cyfnod yma gadawodd un Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ac apwyntiwyd swyddog yn ei le oedd angen hyfforddiant a chymwysterau perthnasol, er mwyn cyflawni'r holl ddyletswyddau diogelwch bwyd yn llawn.

4.7 Yr hyn mae'r gwasanaeth wedi ceisio ei wneud i liniaru sgil effeithiau colli staff yw blaenoriaethu'r gwaith ar sail risg, ac felly'r archwiliadau o fusnesau sydd yn y categori risg uchaf sydd wedi cael y flaenoriaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi ceisio cymhwyso a hyfforddi swyddogion mewn ystod o feysydd gwaith, er mwyn cynnig cyfleoedd i gydlynu archwiliadau hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd a diogelwch ar yr un pryd os yn bosib. Y bwriad hefyd oedd ceisio cynnal unrhyw ôl groniad o archwiliadau oedd heb eu gwneud yn raddol dros 2 i 3 blynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn anelu at fabwysiadu trefniadau cofnodi gwaith fwy effeithiol, drwy ddefnydd o dechnoleg allan yn y maes, fydd yn lleihau'r gwaith gweinyddu presennol. Rhaid nodi fod deddfwriaeth megis Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, wedi gosod byrdwn gorfodaeth sylweddol ychwanegol ar Gynghorau o safbwynt y gwaith sydd rhaid ei wneud yn y maes hylendid bwyd a safonau bwyd.

4.8 Er yr ymdrechion i geisio lliniaru sgil effeithiau toriadau staff, mae'n debyg bod effaith mwyaf y toriadau diweddar wedi ei gweld yn ystod 2017/18, gyda hyn yn cael ei amlygu mewn adroddiadau ar berfformiad y gwasanaeth diogelwch bwyd. Er ein bod wedi ceisio blaenoriaethu archwiliadau ar gyfer busnesau risg uchel, ac wedi cael adnoddau ychwanegol ym mis Chwefror / Mawrth 2018 i gynnal 35 archwiliad dros benwythnosau, roedd 8 archwiliad risg uchel hylendid bwyd heb ei wneud yn ystod 2017/18. Hefyd, roedd ôl-groniad o 73 busnes risg isel heb gael archwiliad yn ystod y cyfnod.

4.9 Erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn adrodd ar fesuryddion perfformiad sydd yn edrych ar yr holl sefydliadau bwyd dros y flwyddyn (risg uchel a risg isel) sydd wedi derbyn archwiliad hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol a'r gofynion o ran amlder. Y sefyllfa ar ddiwedd Mehefin 2018 oedd bod 212 allan o'r 243 oedd wedi ei rhaglennu wedi cael archwiliad hylendid bwyd, gydag ol-groniad o 45 o archwiliadau angen ei gwneud ar ben hyn. Gydag archwiliadau safonau bwyd, y sefyllfa diwedd Mehefin 2018 oedd bod 107 allan 135 o fusnesau wedi ei harchwilio, ond bod ol-groniad o 192 o archwiliadau dylid fod wedi ei gwneud llynedd ar ben hyn. O ran yr archwiliadau'n gyffredinol, nodir bod yr ASB yn hanesyddol wedi rhoi'r brif flaenoriaeth ar gynnal yr archwiliadau hylendid bwyd, er y nodir bod angen cwrdd a'r gofynion o ran archwiliadau safonau bwyd. Fel a nodwyd yn gynharach, rydym wedi ceisio mabwysiadu trefn lle gwneir archwiliadau safonau bwyd ar yr un pryd ag archwiliadau hylendid bwyd lle bo hyn yn bosib.

4.10 Credir fod y ffigyrau perfformiad o ran yr hyn mae'r gwasanaeth diogelwch bwyd presennol yn gallu ei gyflawni yn cyfiawnhau'r pryderon mae'r ASB wedi ei codi gyda'r Cyngor. Arweiniodd hyn at y cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr, Uwch Swyddogion a'r Aelod Cabinet yn ystod mis Mai 2018 a'r llythyr dilynol ym mis Mehefin 2018 (Gweler atodiad 2) gan yr ASB.

**Faint o adnoddau ychwanegol sydd ei angen i geisio cwrdd â gofynion gorfodi cyfraith diogelwch bwyd?**

4.11 Pwysleisir mai prif bryder yr ASB gyda hyn yw nad oes gan y Cyngor adnoddau digonol er mwyn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud a hylendid bwyd yn bennaf, ond hefyd safonau bwyd (gan nodi'r gofynion ychwanegol ar y Cyngor yn sgil deddfwriaeth diweddar). Roedd yn hynod bwysig yn ein cyfarfod ym mis Mai 2018, ein bod yn rhoi ymrwymiad cadarn o'r bwriad i gyfarch y diffyg adnoddau staff, er mwyn dangos ein bod yn ceisio gweithio tuag gyflawni ein dyletswyddau statudol. Roedd hefyd yn bwysig nodi nad oedd cyfarch y diffyg adnodd am newid y sefyllfa dros nos ac y buasai hyn yn rhywbeth a fuasai'n digwydd yn raddol dros amser. Hefyd, rhaid nodi ei bod yn anodd rhoi amcan ar faint o adnodd oedd ei angen gan ei bod yn anodd rhagweld beth all godi o flwyddyn i flwyddyn, gan ystyried natur ac amrywiaeth mewn dyletswyddau'r gwasanaeth.

4.12 Yn dilyn asesiad o faint a pa fath o adnoddau y credir y buasai eu hangen, oedd yn cynnwys edrych ar batrymau a llwyth gwaith hanesyddol, y llwyth gwaith cyfredol a'r ol-groniad tebygol dros amser, credir bod angen adnodd staff parhaol o 2 .25 o leiaf, gyda hyn i'w gyflawni dros amser drwy:

- Gyflogi 2 swydd newydd i gynnwys Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a Swyddog Gorfodaeth (neu gyfystyr). Buasai hyn angen cyllideb ychwanegol barhaol o tua £70 mil. Nodir yn ystod y cyfarfod gyda'r ASB eu bod wedi amcanu y buasai'r Cyngor angen o leiaf £70 mil i fynd i'r afael a'r mater
- Trefnu fod swyddog gorfodaeth presennol yn eistedd gradd meistr iechyd yr amgylchedd (yn cynnwys agweddau gorfodaeth rheolau bwyd). Mae hyn eisoes ar waith ac yn cael ei gyflawni o fewn cyllidebau presennol.

4.13 Er mwyn dangos ein ymrwymiad i geisio ymateb yn sydyn i bryderon yr ASB mae'r gwasanaeth eisoes yn ddiweddar wedi apwyntio swyddog iechyd yr amgylchedd (dros dro) am 12 mis, ond nid oes cyllideb barhaol ar gyfer hyn.

4.14 Rydym wedi cadarnhau'r uchod i'r ASB yn dilyn ein llythyr o'r 20 Mehefin 2018 (gweler atodiad 3) gan nodi ar yr un pryd y byddwn yn gofyn i'r Cabinet cyn diwedd Gorffennaf 2018, am gefnogaeth i ni allu cyfeirio cyllideb barhaol o £70 mil ar gyfer 2 swyddog ychwanegol i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Nid ydym wedi derbyn ymateb gan yr ASB ar hyn o bryd.

**Oes posib cyfeirio £70 mil allan o gyllideb bresennol Gwarchod y Cyhoedd?**

4.15 Mae'n debyg mai'r man cychwyn o ran edrych ar adnodd ychwanegol yw ystyried os oes cyfleoedd i arall gyfeirio adnoddau allan o gyllideb bresennol Gwarchod y Cyhoedd. Credir mai'r man cychwyn gyda hyn yw ystyriaeth o beth yw natur gwaith y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ei gyfanrwydd, faint o doriadau sydd wedi bod yn y gorffennol a beth yw'r adnodd staff cyfredol yn y Gwasanaeth.

4.16 Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac yn cynnwys 3 Uned sydd yn ymwneud yn benodol a'r meysydd gwaith Gwarchod Cyhoedd sef Uned Lles, Iechyd a Diogelwch, Uned Safonau Masnach ac Uned Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu.

4.17 Mae natur gwaith yr Uned Lles, Iechyd a Diogelwch wedi ei egluro eisoes yn ogystal â'r ffaith fod yr Uned Safonau Masnach hefyd yn cyfrannu tuag at y dyletswyddau gwaith. Yn ogystal â chyfrannu tuag at waith diogelwch bwyd mae dyletswyddau statudol yr Uned Safonau Masnach hefyd yn cynnwys:

- Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd a'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau fod busnesau manwerthu yn mabwysiadu a chynnal trefniadau sydd yn cydymffurfio a'r gofynion cyfreithiol sydd yn berthnasol i'w busnes. Y flaenoriaeth yw ceisio taclo arferion masnachu twyllodrus, gwarchod defnyddwyr bregus a gwella iechyd drwy swyddogaethau sydd yn cynnwys masnach deg, delio gyda sgamiau, diogelwch nwyddau, delio gyda nwyddau ffug, ymgymryd a gofynion pwysau a mesurau ac ati.
- Cynnal archwiliadau o sefydliadau sydd yn cynhyrchu, trin a dosbarthu bwyd anifeiliaid yn unol a gofynion yr ASB ac ymgymryd ac unrhyw gamau dilynol. Nodir yn Ebrill 2018 fod yna 1836 o'r busnesau hyn yng Ngwynedd gyda'r mwyafrif yn ffermydd. Mae trefn benodol wedi ei fabwysiadu gan yr ASB sydd yn cael ei gydlynu'r rhanbarthol, ar gyfer archwiliio'r busnesau hyn sydd yn cynnwys targed ar gyfer y nifer sydd angen eu harchwilio'n flynyddol. Y targed ar gyfer 2018-19 ar gyfer Gwynedd yw 102 sydd i lawr o 130 y llynedd. Nodir y gall hyn newid o flwyddyn i flwyddyn – i fyny neu i lawr.
- Cynnal archwiliadau yn ymwneud ac iechyd anifeiliaid gan gynnwys delio gydag achosion yn ymwneud ag afiechydon anifeiliaid gan gymryd camau gorfodaeth perthnasol pan fo angen
- Delio gyda marchnadoedd a ffeiriau.

4.18 Mae'r gwaith mae'r Uned Rheoli Llygredd a Thrwyddedu'n ei wneud yn cynnwys y dyletswyddau statudol isod:

- Rheoli Llygredd – pwrpas y gwaith yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel sydd yn cynnwys y dyletswyddau isod:
  - Archwilio achosion / cwynion yn ymwneud a llygredd a delio gyda hawlenni amgylcheddol gan gynnwys archwilio busnesau sydd gyda phrosesau diwydiannol, delio gyda cheir wedi ei gadael a rhoi cyngor arbenigol,
  - Monitro a rheoli llygredd aer a delio gyda materion tir wedi ei halogi
  - Ymgymryd â dyletswyddau'r Cyngor mewn cysylltiad ag iechyd cyhoeddus
  - Archwilio cyflenwadau dwr preifat i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r safonau hylendid perthnasol
  - Ymgymryd â dyletswyddau gorfodaeth lle bo angen yng nghyd-destun y meysydd gwaith uchod

- Trwyddedu – pwrpas y gwaith yma yw cefnogi a gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau ac mae'r gwaith yn golygu prosesu ceisiadau am drwyddedau dyletswyddau gorfodaeth sydd yn cynnwys trwyddedu:
  - Meysydd carafanau
  - Tacsis (sydd yn cynnwys trwydded gyrrwr, car a gweithredwr).
  - Alcohol, Gamblo ac Adloniant (hyn yn cynnwys trwyddedau ar gyfer eiddo a digwyddiadau)
  - Sefydliadau cadw / gwarchod anifeiliaid
  - Busnesau sgrap metel

4.19 Nodir bod y 3 Uned Gwarchod y Cyhoedd yn darparu gwasanaeth statudol gyda phrif bwrpas y gwaith yn ymwneud a diogelu iechyd trigolion Gwynedd, ond gyda chefnogi busnesau hefyd yn elfen bwysig o'r gwaith.

4.20 Mae newidiadau sylweddol wedi bod i'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd dros y blynyddoedd, yn enwedig o ystyried y sefyllfa yn 2011/12 lle'r oedd yna Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd gyda 7 Uned a 7 Rheolwr Uned. Roedd y 7 Uned yn cynnwys:

- Hylendid Bwyd
- Iechyd a Diogelwch
- Llygredd a Difa Pla (Difa Pla wedi symud i'r Gwasanaeth Eiddo erbyn hyn)
- Trwyddedu
- Safonau Masnach (Manwerthu)
- Safonau Masnach (Diwydiant)
- Cefnogaeth Weithredol

4.21 Fel y gwelir, y sefyllfa gyfredol yw bod 6 o'r Unedau uchod wedi uno i greu 3 Uned sydd yn gwneud gwaith Gwarchod y Cyhoedd, gyda'r Uned Cefnogaeth Weithredol wedi uno gyda'r Uned Gefnogol Gynllunio i greu Uned Gefnogol ar y cyd ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Mae'r newid sylweddol sydd wedi bod yn strwythur y gwasanaeth dros 6 mlynedd diwethaf wedi gweld nifer o swyddi'n cael eu torri ac arbenigedd yn cael ei golli'n sgil hynny. Dangosir isod y newidiadau mewn niferoedd staff Gwarchod y Cyhoedd (sydd yn cynnwys staff Cefnogol) dros y 6 mlynedd diwethaf:

| **Blwyddyn** | **Nifer staff** |
|---|---|
| 2011/12 | 63.10 |
| 2017/18 | 42.80 |

4.22 Gwelir uchod bod oddeutu 20 o swyddi wedi ei thorri o'r Gwasanaeth dros y 6 mlynedd diwethaf sydd gyfystyr a 32% o doriad mewn nifer staff Gwarchod y Cyhoedd (hyn yn cynnwys staff Cefnogol). Mae'r toriadau mwyaf diweddar a weithredwyd yn 2016/17 (2 swydd barhaol) - wedi effeithio'n bennaf ar yr Uned Lles, Iechyd a Diogelwch, ond pwysleisir fod toriadau wedi bod ar draws waith y 3 Uned gyfredol dros y 6 mlynedd. Mae yna sgil effeithiau ar y 3 Uned oherwydd y toriadau sydd wedi ei gweithredu. Mae'n debyg bod yr effeithiau hynny'n cael eu hamlygu fwy yn yr Uned Lles, Iechyd a Diogelwch (a'r Uned Safonau Masnach sydd yn cyfrannu at waith diogelwch bwyd) oherwydd y pryderon sydd wedi ei datgan gan yr ASB.

4.23 Mae toriadau o 32% mewn lefelau staffio dros 6 mlynedd wedi effeithio ar wydnwch y 3 Uned Gwarchod y Cyhoedd, gyda hynny'n cael ei amlygu mewn cyfnodau o absenoldebau staff (gwyliau neu salwch), neu mewn cyfnodau lle mae achosion cymhleth sydd angen blaenoriaeth iddynt. Pan oedd yr Adran yn edrych ar gynlluniau arbedion posib yn ddiweddar, edrychwyd a'r holl Unedau Gwasanaethau'r Adran. Daethpwyd i'r casgliad y buasai toriadau pellach yn y 3 Uned Gwarchod y Cyhoedd, oherwydd natur y gwaith, y risgiau cysylltiedig a'r toriadau blaenorol, yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar drigolion Gwynedd.

4.24 Os ceir £70 mil o adnodd ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, credir bod cyfle i nid yn unig gyfarch y diffyg adnoddau o ran y gwaith diogelwch bwyd, ond gall yr adnodd yma gynnig mwy o wydnwch i'r 3 Uned Gwarchod y Cyhoedd.

4.25 Gan ystyried natur gwaith y 3 Uned Gwarchod y Cyhoedd, y toriadau sydd wedi ei gweithredu dros y blynyddoedd, ni chredir bod posib cyfeirio £70 mil o gyllideb bresennol y gwasanaeth, heb gael effaith negyddol pellach ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae gofynion ychwanegol ar y Cyngor yn sgil deddfwriaeth amrywiol sydd wedi dod i rym dros y 6 mlynedd diwethaf, ar ben y toriadau, wedi gwneud y sefyllfa'n hyd yn oed mwy heriol. Nodir bod trafodaethau wedi bod dros amser gyda'r Adran Oedolion, ond deallir nad oes capasiti yn eu gwasanaeth sydd yn delio gyda thai preifat i gyfarch y bwlch.

4.26 Gan ystyried yr amgylchiadau, gofynnir felly am gefnogaeth i gyfeirio £70 mil o incwm allan o un o gynlluniau arbedion yr Adran sydd yn ymwneud ag incwm cau ffyrdd, er mwyn cyfarch y diffyg adnodd. Nodir bod y strwythur ffioedd ar gyfer y cynllun arbedion yma wedi ei gytuno eisoes ac yn weithredol.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- Cyfeirio'r £70 mil ar gyfer 2 swydd barhaol, sef Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a Swyddog Gorfodaeth (neu gyfystyr) i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.
- Hysbysebu ac apwyntio cyn gynted ag y bo modd a rhoi trefniadau hyfforddiant yn eu lle.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Gweler yr atodiadau isod sydd yn cynnwys yr ohebiaeth a'r trafodaethau a fu rhwng y Cyngor a'r ASB dros y misoedd diwethaf.

## 7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Prif Swyddog Cyllid:

Roedd ein rhagolygon ariannol, fel y'i hadroddwyd i'r Cabinet ar 22 Mai 2018, yn darogan bydd bwlch ariannu erbyn 2019/20, oherwydd bydd arian grant y Llywodraeth yn debygol o fod yn annigonol i gwrdd â chwyddiant tâl a galw am wasanaethau'r Cyngor.

Felly, mae'n anochel byddwn angen darganfod ychwaneg o arbedion, ac mae'r Adran Amgylchedd wedi bod yn paratoi'n gydwybodol er mwyn cyfrannu tuag at y bwlch cyllido corfforaethol. Fodd bynnag, gwelir yn yr adroddiad gerbron fod angen cynyddu adnodd staffio rŵan, er mwyn cyfarch gofynion gorfodaeth cyfraith bwyd.

Y datrysiad a gynhigir yma yw cynhaeafu £70,000 o incwm ychwanegol drwy wireddu cynllun arbediad 'incwm trefniadau cau ffyrdd' yn ystod 2018/19, ac ymrwymo'r £70,000 i gynyddu'r adnodd staffio gorfodaeth cyfraith bwyd. Cadarnhaf fod hynny'n ymarferol bosib, ond wrth gwrs bydd yn golygu

fod cynnyrch y cynllun arbediad perthnasol wedi'i ymrwymo'n barhaol, ac felly ddim ar gael i gyfrannu tuag at fwlch cyllido corfforaethol 2019/20.

Bydd y Cabinet angen ystyried y cyfiawnhad cryf am gynyddu'r adnodd staffio gorfodaeth cyfraith bwyd, gan gofio gallai ymrwymo'r arbediad / incwm £70,000 yma i'r Adran Amgylchedd olygu toriad mewn rhyw wasanaeth arall o'r Cyngor

**Swyddog Monitro:**

Mae'r ddyletswydd statudol i orfodi safonau bwyd dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliadau cysylltiedig yn gorwedd gyda'r Cyngor. Rhoddir arweiniad statudol yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd ( Cymru) 2014 ynglŷn â sut i fynd ati i weithredu'r dyletswyddau yma. Gan ddal sylw at y gyfundrefn yma mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cefnogi cyflawni'r gofynion.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Llythyr o'r 11 Ebrill 2018 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

**Atodiad 2:** Llythyr o'r 5 Mehefin 2018 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
**Atodiad 3:** Llythyr o'r 20 Mehefin 2018 gan y Cyngor

Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

Mr Dilwyn Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd

**Drwy e-bost**

11 Ebrill 2018

Annwyl Mr Williams,

**Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd o Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd Cyngor Gwynedd**
**Ymweliad Dilynol 28 Chwefror 2018**

Ym mis Chwefror 2016, roedd Cyngor Gwynedd yn destun archwiliad llawn o'i wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a nodwyd 34 o argymhellion er mwyn gwella. Yna, cytunwyd ar gynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Cynhaliwyd ymweliad pellach ar 28 Chwefror 2018 i asesu cynnydd yr awdurdod o ran cyflawni yn erbyn argymhellion yr archwiliad. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i reolwyr a swyddogion eich gwasanaeth a hwylusodd ac a gymerodd ran yn yr ymweliad hwn.

Mae'r cynllun gweithredu sydd ynghlwm wedi'i ddiweddaru i nodi cynnydd yr awdurdod o ran mynd i'r afael â'r argymhellion. Cadarnhaodd yr archwilwyr fod camau effeithiol wedi'u cymryd i weithredu 14 o'r 34 o argymhellion, a bod rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael ag 14 o argymhellion pellach.

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: daniel.morelli@food.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8902
Ffacs / Fax: 029 2067 8919



SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING
food.gov.uk/ratings
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

O ran yr argymhellion sy'n weddill, mae'r ASB yn pryderu nad yw'r awdurdod wedi gwneud unrhyw gynnydd yn y meysydd hyn. Mae dau o'r argymhellion hyn yn hanfodol wrth gynllunio a chyflwyno rheolaethau bwyd swyddogol yn effeithiol. Yn ystod yr ymweliad, cafodd ei nodi bod yr adnoddau ariannol a staffio a ddyrannwyd i'r gwasanaeth wedi'u cwtogi. Mae'r gostyngiad hwn mewn adnoddau yn debygol o gael effaith sylweddol ar allu'r awdurdod i fodloni ei rwymedigaethau statudol a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Cod) neu i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

Nid yw Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod, sy'n ddogfen bwysig er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn mynd i'r afael â gofynion statudol a blaenoriaethau cenedlaethol yn lleol, ac yn gweithredu arnynt, wedi ei gymeradwyo ar lefel Aelod, Fforwm Aelodau neu uwch swyddog dirprwyedig addas. Dylai Cynlluniau Gwasanaeth ac adolygiadau cysylltiedig gael eu cymeradwyo ar y lefel berthnasol er budd tryloywder ac atebolrwydd lleol.

Fe gofiwch fod Richard Bowen, Cyfarwyddwr ASB Cymru (dros dro) wedi ysgrifennu atoch ar 29 Tachwedd 2017 a 25 Ionawr 2018 ynglŷn â'r ymyriadau a gynlluniwyd nad yw'r awdurdod wedi'u cyflawni. Rwyf hefyd yn ymwybodol, ar 10 Hydref 2017, fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi ystyried adroddiad ar Archwiliad yr ASB o Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd Cyngor Gwynedd. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw'n benodol at bryderon ym mharagraffau 2.7 a 2.8 ynghylch anallu'r awdurdod i gydymffurfio â'r Cod oherwydd lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth.


Mae'r Asiantaeth wedi codi pryderon am berfformiad yr awdurdod o ran cynnal ei wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yn flaenorol. Ym mis Hydref 2014, roedd uwch swyddogion yr ASB yn bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu perthnasol y Cyngor. Bryd hynny, sicrhawyd yr ASB y byddai camau'n cael eu cymryd a dangosodd gweithgarwch dilynol mai dyma oedd yr achos.

Cymaint yw pryder yr ASB am gyfeiriad yr awdurdod, hoffwn i a Richard Bowen gyfarfod â chi, Pennaeth Adran yr Amgylchedd a'r Aelod Cabinet perthnasol i drafod hyn ymhellach. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi pa ddyddiadau fyddai'n gyfleus i ni gynnal y cyfarfod hwn?

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at reolwyr a phennaeth eich gwasanaeth sy'n gyfrifol am wasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd sydd wedi bod yn trafod y mater hwn â swyddogion yn yr ASB.

Os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi dros y ffôn ar 02920 678902 neu e-bostiwch: daniel.morelli@food.gov.uk

Yn gywir,



Daniel Morelli
Pennaeth Tîm Cefnogi ac Archwilio’r Awdurdodau Lleol

*cc.* Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran yr Amgylchedd
Gareth Jones, Uwch Reolwr Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
Alun Evans, Rheolwr Diogelu’r Cyhoedd

Richard Bowen, Cyfarwyddwr, ASB Cymru (Dros Dro)
Craig Sewell, Archwiliwr, ASB Cymru
Jamie McMeeking, Archwiliwr, ASB Cymru
Rebecca Jones, Archwiliwr, ASB Cymru

Mr. Dilwyn Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd

**Drwy e-bost**

5 Mehefin 2018

Annwyl Dilwyn,

**PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD O RAN CYFLAWNI EI WASANAETH GORFODI CYFRAITH BWYD**

Diolch am eich amser ac am roi'r cyfle i ni siarad â chi a'ch swyddogion ddydd Llun 21 Mai o ran gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd eich awdurdod. Mae nifer yr ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd dyledus a nodwyd gan eich awdurdod yn 2016/17 yn destun pryder ac fe wnaethom ni eich cynghori chi am y gofyniad i gynnal ymyriadau yn unol â'r amlderau a amlinellir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod).

Yn y cyfarfod, buom yn trafod yr angen i chi gynnal asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau, ynghyd â'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal ymyriadau dyledus yn flynyddol. Dylai'r awdurdod nodi a gweithredu ar unrhyw ddiffygion mewn adnoddau. A fyddech cystal â rhannu'ch asesiad o adnoddau gyda ni, ynghyd â'ch cynlluniau ar gyfer gweithredu ar:

i. yr ôl-groniad o ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd hwyr; a,
ii. yr ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd sy'n ddyledus yn 2018/19.

Rydych chi wedi rhoi gwybod i ni, er mwyn lleihau nifer yr ymyriadau hylendid bwyd hwyr, eich bod wedi penderfynu recriwtio Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn ddiweddar ar gontract tymor penodol.

Yn y cyfarfod, cawsom wybod bod eich awdurdod wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg o weithredu ymyriadau hylendid bwyd, gan flaenoriaethu'r busnesau bwyd hynny sydd â sgôr risg uwch, h.y. categori A, B a C, dros y rheiny a oedd wedi'u pennu i beri risg is, h.y. categori D ac E, yn ôl y Cod. Fe esbonion ni bod y flaenoriaeth a roddir i fusnesau bwyd â risg is eisoes

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: richard.bowen@food.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8903



Cofiwch gadw mewn cysylltiad drwy:
Let's keep connected:
facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd
facebook.com/FoodStandardsAgency
@fsacymru ac @fsawales
@foodgov

wedi'i lliniaru gan yr amlder ymyrryd hirach a roddir i sefydliadau categori D ac E. Eglurwyd ymhellach y gallai'r dull hwn arwain at rai sefydliadau nad ydynt yn derbyn ymyriad am 4 neu 5 mlynedd, a sut y gallai hyn beryglu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) statudol yng Nghymru. Mae hygrededd y Cynllun a'i werth i ddefnyddwyr yn dibynnu ar sgoriau cyfredol.

Fe esbonion ni pa mor bwysig yw ymyriadau safonau bwyd a'n pryderon bod yr awdurdod wedi rhoi gwybod yn yr wybodaeth LAEMS ar gyfer 2016/17 bod mwy na 500 o fusnesau bwyd yn hwyr yn cael ymyriad. Mae ymyriadau safonau bwyd yr un mor bwysig ag ymyriadau hylendid bwyd, a dangoswyd hyn yn ein trafodaeth am alergenau bwyd. Mae alergenau yn peri risg sylweddol i grwpiau penodol sy'n agored i niwed, ac rwy'n gobeithio ein bod yn glir na ddylid lleihau adnoddau ar gyfer safonau bwyd er mwyn ariannu rhaglen ymyrraeth hylendid bwyd eich awdurdod.

Buom yn trafod y cymorth y gall fod angen ar eich awdurdod i fynd i'r afael â'n pryderon, ac fe gytunon ni i godi'r mater o gyllid yn ein cyfle nesaf gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, yn benodol y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo elfen diogelwch bwyd yr asesiad seiliedig ar ddangosyddion (IBA). Rydym ni hefyd wedi cytuno i'ch cefnogi wrth ddatblygu cynllun realistig o adnoddau ar gyfer eich gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd sy'n dangos sut mae'r awdurdod yn bwriadu mynd i'r afael â'r ymyriadau rheoleiddio gofynnol.

Mae gwybodaeth LAEMS eich awdurdod ar gyfer 2017/18 yn dal heb ei gymeradwyo. Byddwn ni'n ddiolchgar pe byddai'r Pennaeth Gwasanaeth enwebedig yn gallu cymeradwyo'r data fel mater o frys.

Credaf fod yr uchod yn grynodeb cywir o'n trafodaethau, ond os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu newidiadau, cofiwch roi gwybod i mi.

Rydym ni'n edrych ymlaen at gael diweddariad am eich ymgyrch recriwtio ddiweddar, eich amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen yn 2018/19 a'ch cynllun(iau) ar gyfer mynd i'r afael ag ymyriadau hwyr a dyledus.

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: richard.bowen@food.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8903



Cofiwch gadw mewn cysylltiad drwy:
Let's keep connected:
**facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd**
**facebook.com/FoodStandardsAgency**
**@fsacymru ac @fsawales**
**@foodgov**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch swyddogion unwaith eto am eich lletygarwch yn ystod ein hymweliad.

Yn gywir

Richard Bowen
Cyfarwyddwr (Dros Dro) yr ASB yng Nghymru

cc. Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran yr Amgylchedd
Gareth Jones, Uwch Reolwr Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

Daniel Morelli, Pennaeth Tîm Cefnogi ac Archwilio Awdurdodau Lleol, Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) Cymru
Craig Sewell, Archwilydd, ASB Cymru

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: richard.bowen@food.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8903

Cofiwch gadw mewn cysylltiad drwy:
Let's keep connected:
**facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd**
**facebook.com/FoodStandardsAgency**
**@fsacymru ac @fsawales**
@**foodgov**

**Pennaeth Adran Amgylchedd**
(Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Eiddo, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad)
**Head of Environment Department**
(Planning, Public Protection, Property, Transport & Countryside)
**Dafydd Wyn Williams**

Gofynnwch am/Ask for: Dafydd Wyn Williams
☎(01286) 679371

DafyddWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: **DWW/amj**
Eich Cyf / Your Ref:

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Mr Richard Bowen
Cyfarwyddwr (Dros Dro) yr ASB yng Nghymru
Asiantaeth Safonau Bwyd
Llawr 11, Ty Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

20 Mehefin 2018

Annwyl Mr Bowen

**Parthed: Perfformiad Cyngor Gwynedd o ran cyflawni ei wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd**

Diolch am eich llythyr o'r 5 Mehefin 2018 yn dilyn ein cyfarfod o'r 21 Mai 2018 ynglŷn â'r uchod. Roedd y cyfle i drafod eich pryderon gyda ni ac i gael eich cyngor ar y ffordd ymlaen yn hynod o fuddiol ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth gyda hyn.

Pwysleisiaf ein bod fel Cyngor yn cymryd y materion yma o ddifri a gobeithio eich bod yn gallu gweld hynny yn dilyn ein cyfarfod diweddar, a'r camau rydym eisoes wedi ei rhoi yn eu lle i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol fel Cyngor o safbwynt cyfraith bwyd. Credaf fod y sefyllfa rydym ynddi yn adlewyrchiad o'r lleihad yn yr adnoddau staff sydd wedi bod dros y blynyddoedd, sydd fel y gwyddoch, yn sefyllfa debyg ar draws wasanaethau'r Cyngor. Nodaf fod y flwyddyn 2017/18 wedi bod yn flwyddyn o ddygymod gyda newid a lleihad mewn adnodd staff yn y gwasanaeth yma, a bod hyn mae'n debyg yn cael ei adlewyrchu'r ymyriadau hylendid a safonau bwyd sydd wedi ei cynnal ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn awyddus iawn i ddangos i chi ein bod yn rhoi mesurau cadarnhaol yn eu lle i fynd i'r afael a'r mater. Rwyf yn gwybod o'n sgwrs eich bod yn gwerthfawrogi na allwn gyfarch eich pryderon dros nos ac mai yn raddol y gallwn wneud hynny dros y deunaw mis nesaf. Deallaf o'r ohebiaeth flaenorol gyda chi eich bod wedi cyfeirio at ymyriadau hylendid bwyd fel y brif flaenoriaeth, ond rydym yn derbyn bod angen i ni hefyd fynd i'r afael a'r gofynion o ran amlder ymyriadau hylendid bwyd. Byddwn felly yn cynnal asesiad o'r adnoddau y byddwn ei angen i gwrdd a'r ôl-groniad o ymyriadau ac i gynnal ymyriadau dyledus yn flynyddol ar gyfer cyflawni'r gofynion o safbwynt cyfraith bwyd.

Ein bwriad yw cynnwys yr asesiad adnoddau, fel rhan o gynllun busnes blynyddol 2018/19 rydym yn ei gyflwyno i chi fel rhan o'r trefniadau safonol sydd yn eu lle. Byddwn wrth gwrs yn gwerthfawrogi eich barn ar yr asesiad drafft, cyn i ni ofyn am gymeradwyaeth yn y dull priodol o fewn y Cyngor, ar gyfer y cynllun busnes. Ein bwriad yw gyrru cynllun busnes drafft 2018/19 i chi cyn diwedd Mehefin 2018 fydd yn cynnwys yr asesiad o adnoddau.

Cafwyd sgwrs agored yn ein cyfarfod ynglyn a'r adnodd staff oedd posib ei hangen ar gyfer cyrraedd sefyllfa lle gallwn fod yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda'r gofynion cyfraith bwyd. Rwyf yn cofio i chi nodi'r angen am werth £70 mil o adnodd i gwrdd â'r diffyg a fuasai gyfystyr a 2 aelod staff i gynnwys Swyddog Iechyd Amgylchedd a Swyddog Technegol (neu gyfystyr). Mae hyn yn adlewyrchu maint yr adnodd rydym wedi bod yn ei ystyried

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw. cymru

sydd ei angen ac i'r perwyl yma rydym erbyn hyn wedi apwyntio Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Dros Dro) am gyfnod o flwyddyn fel man cychwyn. Derbynnir mai cam dros dro yw hyn a chadarnhaf ein bwriad i gyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd cyn diwedd Gorffennaf 2018, yn gofyn am gefnogaeth i ni allu cyfeirio cyllideb barhaol o £70 mil ar gyfer Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a Swyddog Technegol (neu gyfystyr) i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Nodaf eto y buasai unrhyw apwyntiadau staff newydd angen cyfnod o gymhwyso a chyfarwyddo ac oherwydd hynny y buasai cyflawni'r gofynion o ran cyfraith bwyd yn broses raddol.

Yn ogystal a'r uchod nodaf isod y camau eraill mae'r gwasanaeth eisoes yn ei gweithredu:

i. Mae swyddog oedd yn hyfforddai dros fwyafrif 2017-18 bellach wedi cymhwyso i gynnal archwiliadau risg uchel. Mae ardaloedd gwaith / llwyth gwaith swyddogion wedi ei newid yn rhannol i adlewyrchu hyn a rhannu'r gwaith yn fwy hafal.
ii. Mae trefn cynnal archwiliadau hylendid a safonau ar y cyd yn aeddfedu gyda swyddogion bellach yn gyffyrddus yn cynnal y ddwy drefn law yn llaw lle bo hynny'n ymarferol
iii. Edrych ar anghenion Gwarchod y Cyhoedd o safbwynt y defnydd o system gyfrifiadurol swyddfa gefn, gyda'r nod o leihau ar yr ymdrech sydd yn gysylltiedig â gweinyddu a chofnodi archwiliadau / ymyriadau fel y gall Swyddogion ganolbwyntio mwy ar y gwaith allan yn y maes.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn gwerthfawrogi o'r uchod ein bod yn gwneud pob ymdrech posib i ymateb yn gadarnhaol i'ch pryderon fel rhan o'n ymrwymiad i gyfarch yr holl ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol a'r gofynion o ran amlder.

Hoffwn ddiolch i chi am gytuno i godi'r materion cyllidol a drafodwyd yn ein cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ac am eich cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio'n agos gyda chi. Byddwn yn trefnu i roi diweddariad i chi yn ystod mis Awst ar ein hymdrechion i geisio sicrhau cyllid parhaol ar gyfer adnodd staff i'r Gwasanaeth. Cadarnhaf hefyd ein bod erbyn wedi cymeradwyo'r adroddiad LAEMS ar gyfer 2017/18 ac ymddiheurwn am unrhyw oediad gyda hyn.

Diolch eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Yn gywir

**Dafydd Wyn Williams**
**Pennaeth Adran Amgylchedd**
**Head of Environment Department**

cc

Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

Gareth Jones, Uwch Reolwr, Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Daniel Morelli, Pennaeth Dros Dro – Tîm Cynorthwyo ac Archwilio Awdurdodau Lleol (ASB)

Craig Sewell, Archwilydd (ASB)

Eitem 7

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Gorffennaf 31, 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffon Cyswllt** | **32335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Cyflogaeth** |

1 **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol.

2 **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Ar gyfer adlewyrchu a chytuno ar y strategaeth corfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol

3 **CYFLWYNIAD**

Bwriad yr adroddiad hon yw cyflwyno diweddariad blynyddol o fanylion y gweithlu a'u cyflogaeth yn ogystal ag amlinellu amcanion ar gyfer datblygu'n gweithwyr a gosod cyfeiriad  ar gyfer y dyfodol.

Fe'ch atgoffir bod y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol (sef y fforwm ar y cyd rhwng cynrychiolwyr undebau cydnabyddedig ac Aelodau etholedig) yn derbyn adroddiad blynyddol ar weithgaredd ym maes adnoddau dynol ond mae'r adroddiad honno yn canolbwyntio ar y berthynas weithredol rhwng y cyflogwr a chynrychiolwyr y gweithlu.

**1. <u>Gweithlu'r Cyngor</u>**

Nodir yma y niferoedd a gyflogwyd ar sail llawn-amser a rhan-amser o fewn y Cyngor am y dair blynedd diwethaf. Noder bod y niferoedd hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio yn ein hysgolion ond nid y staff hynny a gyflogir yn achlysurol yn ystod cyfnodau gwyliau/salwch y gweithlu sefydlog.

| | 31/3/16 | 31/3/17 | 31/3/18 |
|---:|---:|---:|---:|
| Llawn amser | 2,965 | 2,847 | 2,953 |
| Rhan amser | 3,029 | 2,981 | 2,938 |
| Cyfanswm | 5,994 | 5,828 | 5,891 |

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Mae'r manylion yn arddangos cynnydd o 63 yn y nifer o unigolion a gyflogwyd gan y Cyngor ar ddiwedd Mawrth eleni o'i gymharu a'r un adeg yn 2017 h.y. cynnydd o 106 cytundeb cyflogaeth llawn-amser ond gostyngiad o 43 swydd rhan-amser. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf yn sgil trosglwyddiad staff y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig i gyflogaeth Cyngor Gwynedd yn hytrach na bod y nifer hyn o swyddi newydd wedi'u creu ar sefydliad staffio'r Cyngor.


## 2. <u>Rhaniad y Gweithlu yn ol Rhyw</u>

Yma gwelir dadansoddiad pellach o'r nifer dynion a merched a gyflogwyd yn llawn-amser ac yn rhan-amser yn ystod yr un cyfnod. Mae'r manylion yn arddangos cynnydd o 30 o ddynion dros y tair blynedd a gostyngiad o 133 o ferched er bod cynnydd yn y nifer o ferched llawn-amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf (hyn eto'n bennaf yn sgil trosglwyddiad cyflogaeth gweithwyr y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig i gyflogaeth y Cyngor).

| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| Llawn amser | Dynion | 1,370 | 1,360 | 1,387 |
| | Merched | 1,595 | 1,487 | 1,566 |
| Rhan amser | Dynion | 299 | 327 | 312 |
| | Merched | 2,730 | 2,654 | 2,626 |
| | | | | |
| Cyfanswm | Dynion | 1,669 | 1,687 | 1,699 |
| | Merched | 4,325 | 4,141 | 4,192 |
| Cyfanswm % | Dynion | **27.8%** | **28.9%** | **28.8%** |
| | Merched | **72.2%** | **71.1%** | **71.2%** |

Gweler ymhellach ddadansoddiad o'r rhaniad dynion a merched yn adrannau'r Cyngor fel ag yr oedd yn ymddangos ar Fawrth 31ain 2018.

**Rhaniad merched / dynion staff Cyngor Gwynedd fesul Adran, 31 Mawrth 2018**





**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru


### 3. **Proffil oedran staff y Cyngor**

Nodir yma proffil oedran staff y Cyngor fel ag yr oedd yn ymddangos ar Fawrth 31ain 2018. Mae'n arddangos bod dros 64% o weithlu presennol y Cyngor yn hŷn na 40 oed (63% yn 2015/16) tra bo 36% yn hŷn na 50 oed (34.5% hefyd yn 2015/16). Mae'r cynnydd bychan ond graddol hwn yn y nifer o staff sydd yn hŷn na 40 oed (a 50 oed), ynghyd a'r ffaith bod gostyngiad mewn trosiant staff dros y ddwy flynedd blaenorol, yn ffactor pwysig i'w ystyried fel rhan o'r sylw presennol sy'n cael ei roi i gynllunio'r gweithlu.

Mae'r graff isod yn arddangos yr Adran gyda'r proffil oedran ieuengaf a'r Adran gyda'r proffil oedran hynaf yn ogystal a'r proffil oedran ar gyfer y Cyngor cyfan.




Gwelir isod dabl enghreifftiol sy'n darparu darlun clir o broffil oedran presennol y Grŵp Rheoli Corfforaethol (penaethiaid adran, y cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr).




Mae cadw cofnod, dadansoddi a rhannu'r wybodaeth yma yn allweddol i allu rheolwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn hynny o beth i ystyried y camau sydd angen eu cymryd yn rhagweithiol er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau.

## 4. Trosiant Staff


Yn hanesyddol mae trosiant o fewn y Cyngor wedi bod yn gymharol sefydlog ond bu patrwm o gynnydd bychan dros y blynyddoedd hyd at 2015/16. Mae'r trosiant eleni wedi gostwng ac mae hynny yn groes i'r patrwm a welir yn genedlaethol o fewn y sector gyhoeddus yn gyffredinol (y ffigyrau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y sector yn arddangos trosiant o 15% ar gyfartaledd).

Mae'r trosiant mwyaf i'w weld o fewn rhai o wasanaethau'r Adran Economi a Chymuned (16.5%) a Priffyrdd a Bwrdeistrefol (10.7%) tra bo trosiant ar ei isaf o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd (5.6%), Amgylchedd (6.5%) a'r Adran Addysg (7.1%).




## 5. Absenoldebau Salwch

Bu i'r nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch ar draws y Cyngor ostwng i 8.72 diwrnod y pen ar gyfartaledd y llynedd, o'i gymharu a chyfartaledd o 9 diwrnod y pen yn 2016/17 (8.44 diwrnod y pen yn 2015/16).Mae'r tabl dilynol yn arddangos lefelau yr absenoldebau salwch, fis wrth fis, yn ystod y flwyddyn.





**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Mae absenoldeb salwch, yn 2017/18, ar ei uchaf o fewn y Gwasanaeth Gofal Cymunedol (18.02 diwrnod), Gwasanaeth Preswyl a Dydd (16.56 diwrnod) a'r Gwasanaeth Glanhau - Amgylchedd (14.38 diwrnod) tra bo absenoldeb salwch ar ei isaf o fewn yr Adran Addysg ganolog (3.4 diwrnod), Economi a Chymuned – heb gynnwys Hamdden (4.96 diwrnod) a'r Gwasanaeth Hamdden ei hun (5.1 diwrnod). Mae gweithgor o swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu achosion unigol o absenoldeb ac yn naturiol yn canolbwyntio eu hymdrechion o fewn y gwasanaethau hynny ple bo lefelau salwch yn uchel. Gwelir peth ffrwyth o'r gwaith hwnnw yn ystod 2017/18 gan bod lefelau o absenoldeb salwch o fewn y Gwasanaeth Preswyl a Dydd a'r Gwasanaeth Glanhau – Amgylchedd, er yn parhau'n uchel, wedi gostwng

Mae'n bwysig nodi yma na fu 42.5% neu 2,542 (2,518 yn 2016/17) o staff y Cyngor yn absennol o gwbl oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn diwethaf. Ymhellach, gellir adrodd bod y canran o ddyddiau a gollwyd i salwch tymor hir wedi gostwng o 57% yn 2016/17 i 54% yn 2017/18.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymhellach y math o salwch sydd wedi'i gofnodi ar gyfer absenoldebau dros y dair blynedd ddiwethaf. Defnyddir yr wybodaeth yma i lywio'r drafodaeth pan yn ystyried cynnwys y rhaglen hybu iechyd a llesiant yn flynyddol.



Mae'r ffaith bod y canran o absenoldebau salwch gaiff eu cofnodi fel "Sal Arall" wedi gostwng yn hynod galonogol gan bod ymdrech benodol i annog staff i adrodd ar natur eu salwch ac hynny fel bo modd darparu'r gefnogaeth orau posib iddynt yn ystod eu hadferiad.

Adroddwyd y llynedd  a'r flwyddyn cynt bod lleihau y nifer achlysuron salwch a gofnodir fel "Arall" yn un o'r amcanion yn y maes hwn ac roedd amheuaeth bod sawl achlysur o absenoldeb yn sgil straen, yn cuddio o dan "Arall". Nid yw hynny wedi'i brofi i fod yn wir hyd yma, fel ag y mae'r graff uchod yn ei arddangos h.y. mae'r canran o absenoldeb salwch oherwydd straen wedi gostwng rhyw gymaint yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Er hynny, ac yn sgil y ffaith bod straen yn parhau yn gyfrifol am bron i un ymhob pump o'r dyddiau gwaith a gollir oherwydd salwch, mae swyddog wedi'i secondio ers Ionawr 2018, am flwyddyn yn y lle cyntaf, er mwyn rhoi sylw  i'r gynhaliaeth a'r gefnogaeth a ddarperir i staff yn y cyd-destun penodol hwn gyda golwg i ychwanegu at yr hyn sydd eisoes yn cael ei gynnig trwy'r Uned Iechyd Galwedigaethol ac asiantaethau allanol eraill.

## 6. **Dysgu a Datblygu**

Fel ag yr adroddwyd y llynedd, bu i'r nifer o ddyddiau hyfforddi traddodiadol a ddarperir gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu corfforaethol ostwng o 3,043 yn 2013-14 i 915 yn 2016/17. Bu i'r nifer dyddiau hynny gynyddu fodd bynnag yn ystod 2017/18 i 1,389 ac hynny'n benodol yn sgil y buddsoddiad amser sylweddol a roddwyd i ddarparu holl reolwyr gwasanaeth y Cyngor ar gyfer rhoi Ffordd Gwynedd ar waith. Mae'r pwyslais ar y cyfuniad o ddysgu trwy brofiad, dysgu'n gymdeithasol (megis cymell, mentora, derbyn adborth) yn ogystal a dysgu traddodiadol, yn gwreiddio o fewn y Cyngor ac fe adlewyrchir hynny yn y rhaglen hyfforddi a ddarparwyd ar gyfer rheolwyr gwasanaeth dros y flwyddyn diwethaf.

Mae'r nifer o e-ddysgwyr (a ddefnyddiodd yr adnodd)  hefyd wedi cynyddu ymhellach yn ystod 2017/18, hynny o 1,433 yn 2016/17 i 2,119 yn y flwyddyn diwethaf. Mae'n wir datgan bod peth o'r cynnydd hwn yn sgil ymgyrchoedd i annog staff i ymgymryd a'r hyfforddiant e-ddysgu mewn rhai meysydd penodol e.e. trais yn y cartref, atal terfysgaeth, diogelu . Teg hefyd yw nodi nad yw ansawdd y pecynnau a ddarperir i'r pwrpas hwn gan sefydliadau cenedlaethol wedi taro'r nod a chydnabyddir bod angen mwy o waith er mwyn sicrhau bod y pecynnau e-ddysgu gaiff eu cynnig yn cyfleu'r negeseuon pwysig yn fwy effeithiol ac yn arwain at brofiad dysgu hwylus a defnyddiol i staff. Mae'r gwaith hwn wedi'i nodi fel un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Busnes cyfredol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

Un o'r blaenoriaethau eraill yn y Cynllun Busnes yw rhoi Cynllun Prentisiaethau ar waith yn y Cyngor. Secondiwyd un o swyddogion y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i ganolbwyntio ar greu a gweithredu'r Cynllun hwn. Treuliwyd y rhan helaethaf o 2017/18 yn gosod sylfeini a chodi ymwybyddiaeth am y datblygiad pwysig hwn ond edrychir i gyflwyno nifer sylweddol o brentisiaethau newydd yn ystod 2018/19. I'r perwyl hwnnw, bydd cyfres o argymhellion  yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Cabinet yn yr Hydref.

## 7. Strwythur Tâl a Chyflog Cyfartal

Cymeradwywyd y Polisi Tâl ar gyfer 2018/19 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar Fawrth 8fed 2018. Bu i'r Cyd-Bwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol ddod i gytundeb ar godiadau cyflog am y ddwy flynedd oddi ar y 1af o Ebrill, 2018, sydd wedi arwain at godiad cyflog o hyd at 9.1% i'r staff hynny sydd ar isafswm cyflog y Cyngor gyda phob pwynt cyflog hyd at bwynt 19 yn derbyn codiad cyflog uwch na'r 2% a gynigwyd i weddill y staff. Mae hyn yn golygu bod pwynt 8 (sef isafswm cyflog y Cyngor) yn £8.61 yr awr (o'i gymharu â £8.75 yr awr adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw) yn bresennol.

Oddi ar  y 1af o Ebrill, 2019, fel yr ail gam o'r gytundeb dwy flynedd, bydd isafswm cyflog y Cyngor yn codi i £9.18 yr awr gyda phob pwynt cyflog hyd at bwynt 19 eto yn derbyn mwy o gynnydd na'r 2% a ddyfernir i bawb arall. Golyga hyn y bydd isafswm cyflog y Cyngor yn uwch na'r hyn a nodir fel Cyflog Byw oddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ( gellir datgan hyn ar y sail ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r Sefydliad Cyflog Byw yn gosod y Cyflog Byw yn uwch na £9.18 pan yr adolygir y raddfa ym mis Tachwedd eleni). Bydd y newidiadau o Ebrill, 2019 yn arwain at strwythur tâl diwygiedig o fewn y Cyngor hwn (a phob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Lloegr) a bydd trosglwyddo cyflogau staff o un strwythur i'r un arall yn fater ple bydd angen cydweithio hefo swyddogion yr Adran Gyllid a chynrychiolwyr yr undebau yn lleol.

Cwblhawyd archwiliad  ar gyflog cyfartal o fewn y Cyngor gan adolygwr annibynnol yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd cadarnhad nad yw'r Cyngor yn talu cyflog gwahaniaethol am waith o werth cyfartal rhwng merched a dynion. Mae'r farn honno yn adlewyrchiad o'r ffaith bod gan y Cyngor gynllun cydnabyddedig ar gyfer arfarnu swyddi a bod meini prawf y Cynllun hwnnw yn cael eu gweithredu'n gyson. Fodd bynnag, bu i'r adroddiad hefyd nodi bod y bwlch cyflog rhwng merched a dynion, sydd i'w weld yn gyffredinol o fewn cymdeithas, yn bodoli hefyd o fewn y Cyngor a bod angen ystyried beth ellir ei wneud i ddylanwadu ar y sefyllfa honno. Yn hynny o beth, gellir cyfeirio at yr hyn y mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo iddo, fel rhan o'i Gynllun Busnes am y pum mlynedd nesaf, sef i ymchwilio i sut mae modd lleihau'r bwlch cyflog rhwng merched a dynion gyda golwg ar hybu'r nifer o ferched sy'n cyrraedd swyddi uwch o fewn y sefydliad.

## 8. Datblygu'r Arweinyddiaeth

Bu cryn bwyslais ar ddatblygu'r arweinyddiaeth wleidyddol ers mis Mai 2017 ac mae aelodau'r Cabinet yn benodol wedi manteisio ar gyflwyniad model, "The Five Behaviours", o fewn y Cyngor. Mae'r model hwn  yn cyd-fynd yn agos gydag egwyddorion Ffordd Gwynedd ac yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant a ddarperir i reolwyr gwasanaeth er mwyn rhoi Ffordd Gwynedd ar waith. Ymhellach mae swydd-ddisgrifiad generig ar gyfer rheolwyr gwasanaeth wedi'i mabwysiadu gyda trafodaethau wedi cychwyn ar ddiwygio swydd-ddisgrifiadau penaethiaid adran ac uwch reolwyr er mwyn adlewyrchu'r diwylliant o arwain yn hytrach na rheoli o fewn y Cyngor.

Cytunwyd hefyd i ail-sefydlu cyfarfodydd y Coleg Rheolwyr ar ei newydd wedd, nid yn unig fel modd o sicrhau dilyniant i'r hyfforddiant penodol a ddarparwyd i reolwyr ond hefyd i annog y rheolwyr hynny i gymryd cyd-berchnogaeth am eu datblygiad fel carfan allweddol o weithlu'r Cyngor..

## 9. Cynllunio'r Gweithlu

Un o'r ffrydiau gwaith sydd wedi'i flaenoriaethu o fewn Cynllun Pobl y Cyngor ac sy'n cael lle blaenllaw o fewn y Cynllun Busnes adrannol, yw y gefnogaeth a'r anogaeth i reolwyr gynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn yn ymgorffori nifer o wahanol ffrydiau gwaith fydd i gyd yn cynorthwyo gwasanaethau i gynllunio a chymryd camau i sicrhau parhad gwasanaeth a wynebu datblygiadau newydd i'r dyfodol e.e.cynllun arbenigwyr a rheolwyr yfory, rheoli a datblygu talent, gwella'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch gweithlu'r Cyngor.

Canolbwyntiwyd hyd yma ar rai o wasanaethau'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ple mae'r ymgynghorwyr adnoddau dynol yn cydweithio hefo uwch reolwyr yr Adran honno er mwyn eu cynorthwyo i ystyried beth yw anghenion eu gweithlu i'r dyfodol a beth ellir ei wneud yn ymarferol er mwyn osgoi problemau recriwtio yn y maes gofal yn gyffredinol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ledaenu i feysydd gwaith eraill yn ystod y flwyddyn i ddod gyda'r pwyslais ar fesur yr effaith a gaiff y camau a gyflwynir yn y tymor byr, canolig a phellach.

## 10. Amodau Gwaith Lleol

Mae'r gwaith o adolygu a sicrhau fod amodau gwaith staff yn adlewyrchu diwylliant y Cyngor yn un arall o'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Pobl. Mae'r Grŵp sy'n arwain y prosiect wedi bod yn ymgynghori ynglŷn ag adolygu rhai amodau eisoes gyda golwg i gyflwyno rhai newidiadau i'w mabwysiadu yn ystod 2018/19 e.e. trefn absenoldebau salwch, cynllun oriau ystwyth, gwyliau ac amser rhydd, prynu gwyliau ychwanegol, trefn gwynion a threfn ddisgyblu.

Cyflwynwyd newidiadau eraill i'r amodau gwaith lleol oddi ar y 1af o Orffennaf, 2018 yn dilyn trafodaethau a gynhaliwyd hefo cynrychiolwyr yr undebau ers Hydref 2015. Fel y gwybyddir, ni fu modd sicrhau cytundeb torfol ar y newidiadau hyn yn sgil y ffaith bod un o'r undebau, sef UNSAIN, wedi derbyn cyfarwyddyd gan ei Swyddfa Genedlaethol i beidio negodi a chynnal balot ymysg eu haelodau yn lleol.

Hysbyswyd staff o'r penderfyniad, a wnaed gan y Cabinet ar y 13eg o Fawrth, mewn llythyr ddiwedd y mis hwnnw, a oedd hefyd yn cyflwyno rhybudd ffurfiol o ddeuddeg wythnos i staff bod y newidiadau i'w gweithredu arnynt. Ymddiheurwyd am dôn y llythyr hwnnw yn ddiweddarach a dilynodd cyfres o gyfarfodydd gyda cynrychiolwyr yr undebau. Mae'r trafodaethau hynny, erbyn hyn, wedi arwain at argymhelliad gan y tri undeb i'w haelodau dderbyn y pecyn sydd eisoes yn weithredol ynghyd a rhai ychwanegiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r trafodaethau pellach.

## 11. Recriwtio a Penodi

Gwelir isod fanylion ystadegol ynglŷn a'r nifer o swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor yn ystod y bedair blynedd diwethaf ynghyd â'r nifer ceisiadau a dderbyniwyd ac hefyd y nifer o swyddi ple bu'n angenrheidiol ail-hysbysebu. Mae dadansoddi'r manylion hyn eto yn cyfrannu at ein gallu i adnabod meysydd ple bo angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yng nghyswllt datblygu arbenigeddau a chynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.

| Blwyddyn | Nifer o swyddi hysbysebwyd | Nifer Ceisiadau | Nifer o swyddi a ail hysbysebwyd | Nifer ceisiadau am yr ail hysbyseb |
|---|---|---|---|---|
| 2014 | 433 | 2055 | 29 | 138 |
| 2015 | 442 | 2525 | 30 | 106 |
| 2016 | 472 | 2312 | 47 | 179 |
| 2017 | 555 | 3281 | 57 | 240 |

Mae'r gwaith o ddynodi lefelau ieithyddol sydd yn cyd-fynd â lefelau iaith CBAC (Cymraeg i Oedolion) wedi'i gwblhau ac mae'r dynodiadau newydd hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer recriwtio a penodi ers y 1af o Ionawr, 2018. Fel ag yr adroddwyd y llynedd, cymrwyd camau i gryfhau'r adnodd ar gyfer hyfforddiant iaith oherwydd y rhagolygon y byddai'r datblygiad yma yn arwain at ofyn cynyddol i loywi a dysgu'r Gymraeg i'r lefel priodol ymysg staff y Cyngor.

Fel enghraifft o arfer dda, mae Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi brasgamu gyda'r datblygiad hwn a bellach mae trefniant wedi'i wneud ar gyfer y rhan helaethaf o'r rheiny a adnabuwyd i dderbyn hyfforddiant iaith tra bo trafodaethau bellach wedi dechrau gyda'r gwasanaeth Hamdden i gynnig cefnogaeth i aelodau o staff mewn canolfannau hamdden yn y dyfodol agos. Bydd y Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) yn ymweld â gweddill yr adrannau yn eu tro er mwyn adnabod a gweithredu ar anghenion hyfforddi a gloywi'r Gymraeg ymysg y gweithlu presennol, hynny ochr yn ochr a chefnogi gweithwyr newydd sydd angen yr un ddarpariaeth.

## 12. Cynllun Pobl

Bu i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Pobl ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 1af o Dachwedd, 2016. Cyfeiriwyd eisoes at rai o'r ffrydiau gwaith sydd wedi'u blaenoriaethu i dderbyn sylw. Rhaglen waith am y cyfnod rhwng 2016-18 sydd yn y Cynllun ac mae angen cynnal adolygiad o'r cynnwys a'r blaenoriaethau hynny yn ystod y misoedd nesaf gyda'r bwriad i gyflwyno diweddariad yn yr Hydref er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Cynllun Pobl diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-2021.

Mae'r ystyriaeth cynnar i'r adolygiad hwnnw yn cynnig y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar y prif flaenoriaethau yn hytrach nac ar hyd at y 24 prosiect unigol a restrir yn y Rhaglen Waith bresennol. Mae buddsoddi ein hymdrechion yn y ffrydiau gwaith sy'n ymwneud ag;

- ymestyn trefniadau hunan-wasanaeth ar-lein i staff y Cyngor
- cynllunio'r gweithlu
- datblygu talent o fewn y Cyngor yn ogystal a thrwy gynlluniau hyfforddeion a phrentisiaethau
- datblygu ymhellach y gyfundrefn sy'n defnyddio gwybodaeth a data adnoddau dynol i arwain penderfyniadau
- ychwanegu at y gefnogaeth ym maes iechyd a llesiant staff
- adolygu a diweddaru amodau gwaith er mwyn adlewyrchu diwylliant gwaith presennol y Cyngor

yn cynnig eu hunain fel y blaenoriaethau hynny yn bresennol.

Mae'n bwysig pwysleisio eto eleni pa mor allweddol yw i bob rheolwr ac arweinydd gymryd perchnogaeth o'r hyn a geisir ei wireddu o fewn y Cynllun Pobl ac i ni beidio ystyried y ffrydiau gwaith yn faterion i'r swyddogion sy'n cydlynu yn unig, oherwydd bod yr uchelgais yn perthyn i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

**CASGLIADAU**

Mae'r holl wybodaeth ystadegol a gynhwysir yma, o'i ddadansoddi yn ofalus, yn gymorth i reolwyr, a'r swyddogion hynny sydd yn eu cynghori, i gynllunio gwasanaeth ac adnabod yn amserol y materion hynny sydd angen ymchwilio a gweithredu ymhellach arnynt. Daw hyn yn gynyddol bwysig o fewn diwylliant gwaith ple bo seilio penderfyniadau ar dystiolaeth llawn a chadarn yn greiddiol.

Ymhellach, mae'r manylion eraill a gyflwynir ynglŷn a chynnydd o fewn y gwahanol feysydd a flaenoriaethwyd yn y Cynllun Pobl, yn arddangos y camau sy'n cael eu cymryd, nid yn unig i gyfarch anghenion presennol o fewn y gweithlu ond hefyd yr hyn a ragwelir fel gofynion y dyfodol.

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad ar gyfer 2017/18.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn gyfle i'r Cabinet gymryd trosolwg o sefyllfa a phroffiliau staff y Cyngor.  Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth yr Adran Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer ymdrin â materion cyflogaeth.  Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniad gerbron i'r Cabinet ei gymeradwyo yn creu ymrwymiad gwariant, felly nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **31 Gorffennaf 2018** |
| **Aelodau Cabinet:** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins / Y Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **34668** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Rhyddhad Dewisol Rhag Treth Cyngor i Bobl Ifainc yn Gadael Gofal** |

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

**Yn unol â hawliau'r Cyngor dan Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, caniatáu eithriad llawn rhag talu Treth Cyngor i bobl ifanc yn gadael gofal tan y maent yn 25 mlwydd oed, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau, eithriadau a/neu Ostyngiad Treth Cyngor y maent eisoes yn deilwng iddynt.**

### Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

1. Mae Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi grym dewisol cyffredinol i awdurdodau bilio megis Cyngor Gwynedd i leihau atebolrwydd am Dreth Cyngor mewn perthynas ag unrhyw berson, neu grŵp o bobl, yn ychwanegol i unrhyw ddisgowntau ac eithriadau cenedlaethol perthnasol.
2. Mae Adran 67 Deddf 1992 yn rhestru'r adrannau hynny o'r Ddeddf ble'r Cyngor Llawn yn unig all benderfynu arnynt. Gan nad yw Adran 13A(1)(c) yn ymddangos ar y rhestr yma, gall y Cabinet wneud penderfyniad i ganiatáu rhyddhad dan yr Adran hon.
3. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o awdurdodau bilio yng Nghymru wedi penderfynu caniatáu eithriad llawn rhag talu'r Dreth Gyngor i bobl ifanc sy'n gadael gofal (rhai hyd nes y bydd y person yn 21 mlwydd oed, eraill nes bydd y person yn 25). Mae hyn wedi dilyn nifer o adroddiadau ac ymgyrchoedd (er enghraifft, gan Gymdeithas y Plant), sydd wedi nodi amrywiaeth o anfanteision unigryw y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael profiad ohonynt, a'u natur fregus mewn perthynas â dyledion Treth Cyngor.
4. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn gan y Panel Rhiantu Corfforaethol yn ei gyfarfod yn Ebrill 2018. Nodwyd yn y cyfarfod y rhoddwyd sylw i'r mater gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dilyn ei hadroddiad 'Breuddwydion Cudd', gyda'r bwriad o osgoi sefyllfaoedd ble mae pobl ifanc sy'n ceisio sefydlu eu hunain yn annibynnol ar ôl gadael gofal yn mynd i ddyledion Treth Cyngor. Cytunoedd y Panel i gefnogi'r cais bod y Cabinet yn caniatáu rhyddhad o'r fath.

**RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

5. Mae trosglwyddiad person ifanc allan o ofal a dod yn oedolyn yn hynod o anodd ac mae rheoli arian am y tro cyntaf heb gymorth gan y teulu yn gadael y rhai sy'n gadael gofal mewn perygl gwirioneddol o syrthio i ddyled.

6. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol i gefnogi pobl ifanc yn ei ofal. Mae rhiantu corfforaethol yn swyddogaeth statudol y Cyngor. Yr egwyddor sylfaenol yw y bydd pob awdurdod lleol yn ceisio'r un canlyniadau ar gyfer pobl ifanc mewn gofal y byddai pob rhiant da'n eu dymuno ar gyfer eu plant eu hunain.

7. Mae'r Cyngor yn ei rôl fel rhiant corfforaethol cyfrifol yn derbyn ac yn ceisio cymorth pellach i bobl ifanc sydd wedi gadael gofal i allu byw'n annibynnol fel oedolion. Un o'r camau y gellid eu cymryd yw darparu rhyddhad dewisol o Dreth Cyngor ar gyfer rhai sy'n gadael gofal. Byddai'r cynllun arfaethedig yn lleihau i ddim y Treth Cyngor mae'r rhai sydd wedi gadael gofal yn ei dalu, fel nad yw'r Dreth Cyngor sy'n ddyledus i Gyngor Gwynedd (a'r awdurdodau praeseptio – Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a chynghorau cymuned) yn dod yn ddyled broblemus iddynt.

8. Egwyddorion y Cynllun Rhyddhad Trethi arfaethedig i'r rhai sy'n gadael gofal yw:

- Mae'r person ifanc wedi gadael gofal a rhwng 18 a 25 mlwydd oed, a nid ydynt wedi eu heithrio am unrhyw reswm arall;
- Disgwylir y bydd "person ifanc wedi gadael gofal" yn y cyd-destun hwn yn golygu person ifanc sydd o fewn Categori 3 (rhywun 18 oed neu drosodd sy'n gadael gofal) neu 4 (person ifanc sy'n ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant) fel a ddiffinnir gan Adran 104 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu, os ydynt rhwng 21 a 25 mlwydd oed, roeddynt o fewn Categori 3 and 4 pan ddaethant yn 21 mlwydd oed.
- Lle mae un o bobl ifanc wedi gadael gofal Gwynedd yn symud allan o ardal y Cyngor, gellir gwneud cais newydd am y rhyddhad petaent yn dychwelyd cyn eu penblwydd yn 25.

9. Bydd y rhyddhad yn gweithredu fel a ganlyn:

- Bydd y rhyddhad ond ar gael i breswylwyr y mae Awdurdod Lleol wedi cynnal cyfrifoldeb rhiantu corfforaethol amdanynt ar y pwynt y mae'r person ifanc yn gadael gofal;
- Mae'r person ifanc wedi gadael gofal yn byw ac yn atebol am Dreth Cyngor yng Ngwynedd;
- Bydd y lefel o ryddhad a ganiateir yn 100% o atebolrwydd Treth Cyngor gweddillol **ar ôl** ystyried unrhyw ddisgownt/eithriad a Gostyngiad Treth Cyngor y bydd y preswylydd, neu'r cartref, yn deilwng iddynt;
- Lle bydd person ifanc wedi gadael gofal yn byw gyda pherson arall ac maent yn atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol, caniateir rhyddhad ar raddfa o 50% (elfen bersonol o 25% ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal ac elfen o 25% yn erbyn yr eiddo). Petai'r unigolyn sydd ddim wedi gadael gofal yn methu cyflawni eu hatebolrwydd, ni fydd "atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol" yn golygu fod eu dyled hwy yn cael ei gysylltu i'r sawl sydd wedi gadael gofal;
- Bydd y rhyddhad yn cael ei ganiatáu yn erbyn atebolrwydd sy'n codi o 1 Ebrill 2018 ymlaen a bydd gan y Cyngor ddisgresiwn i ôl-ddyddio unrhyw gais yn y dyfodol yn ôl i 1 Ebrill 2018;
- Ni gynhelir prawf modd ar gyfer y rhyddhad, a ni fydd yn amodol ar amgylchiadau unigol y sawl sy'n gadael gofal os ydynt rhwng oedrannau 18 a 25.

10. Ni fydd y Cyngor nid ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru am yr incwm a gollwyd. Fodd bynnag, pe bai cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, bydd yr Adran Gyllid yn paratoi a chyflwyno cais o dan unrhyw gynllun o'r fath.

11. Gweinyddir y cynllun gan Adran Gyllid y Cyngor a fydd yn cydweithio gyda'r Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd i ddatblygu prosesau a fydd yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i'r rhai sy'n gadael gofal i gael y rhyddhad hwn. Ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Ngwynedd, dylai'r broses fod yn anweledig a di-dor, gyda Gwasanaethau Plant yn cofrestru'r rhai sy'n gadael gofal yn awtomatig gyda'r Adran Gyllid ar gyfer y rhyddhad. Fodd bynnag, disgwylir y bydd Gwasanaethau Plant yn cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal gyda ceisiadau ar gyfer disgowntau, eithriadau a Gostyngiad Treth Cyngor y mae gan y person sy'n gadael gofal hawl iddynt.

12. Ar gyfer yr unigolion hynny sy'n byw yng Ngwynedd ond gadael gofal cyngor arall, bydd y Cyngor yn ceisio gwneud y broses ymgeisio am y rhyddhad mor syml â phosibl.

13. Ar sail y cyfrifiadau a wnaed gan yr Adran Gyllid, amcangyfrifir na fydd caniatáu'r rhyddhad hwn yn costio mwy na £20,000 y flwyddyn, ac mae'n yn debygol o gostio llai na hyn. Bydd cost y cynllun yn cael ei ysgwyddo'n gyfan gwbl gan Gronfa Casglu Treth Cyngor Gwynedd.

**CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

14. Os bydd y Cabinet yn penderfynu caniatáu'r rhyddhad, bydd y polisi a sefydlir yn cael ei ddefnyddio am y flwyddyn ariannol gyfan yn cychwyn 1 Ebrill 2018, a bydd biliau addasiedig yn cael eu hanfon i'r pobl berthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**Panel Rhiantu Corfforaethol**

15. Trafodwyd y mater yma gan y Panel Rhiantu Corfforaethol yn Ebrill 2018, a benderfynodd wneud cais i'r Cabinet ganiatáu'r rhyddhad dewisol i'r rhai'n gadael gofal.

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

16. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

17. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor. Gan fod y rhyddhad yma yn effeithio ar nifer fychan iawn o unigolion gyda nodweddion penodol iawn, nid ydym yn credu fod materion cydraddoldeb penodol sydd angen tynnu sylw'r Cabinet atynt wrth ystyried y mater yma.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

18. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu'r cynnig gerbron.

19. Mae’r manteision i drigolion Gwynedd o gefnogi’r rhai sy'n gadael gofal i gael sail ariannol gadarn a’u grymuso i gael mynediad at a chynnal cartref yn glir. Os bydd yr holl ostyngiadau Treth Cyngor yn cael eu hasesu, bydd y gost i drethdalwyr Gwynedd yn gymesurol fychan, ond bydd yr effaith i'r unigolion yn sylweddol a’r budd ehangach i'r Gymdeithas yn dod yn glir dros amser.

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol.

**Barn y swyddogion statudol**

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda’r Aelodau Cabinet i baratoi’r adroddiad yma ac yn cadarnhau’r cynnwys.

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

## RHYDDHAD DEWISOL RHAG TRETH CYNGOR I BOBL IFAINC YN GADAEL GOFAL

### 1) AWDUR(ON) YR ASESIAD

Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg

### 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

Dim yn berthnasol

### 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

1 Ebrill 2018

### 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

16 Gorffennaf 2018

### 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Nod y polisi yw defnyddio grym y Cyngor dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i roi rhyddhad dewisol i bobl ifanc sy'n gadael gofal a'u heithrio rhag talu Treth Cyngor nes eu bod yn 25 mlwydd oed, fel cymorth iddynt ddod yn annibynnol.

### 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda pobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Cafodd y mater ei drafod gan y Panel Rhiantu Corfforaethol yn Ebrill 2018. Roedd y Panel yn gefnogol i'r bwriad.

## 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

| |
|---|
| Mae astudiaethau cenedlaethol wedi dangos fod pobl ifanc sydd yn gadael gofal angen pob cefnogaeth i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol, ac osgoi mynd i ddyledion. Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi cyflwyno'r polisi hwn, ac mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r egwyddor. |

## 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

| |
|---|
| Rydym yn hyderus nad oes bylchau yn ein tystiolaeth. |

## 9) PERTHNASEDD AC EFFAITH

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9 a )**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Dim effaith | Bydd y polisi yma'n berthnasol i'r rhai sy'n gadael gofal, tan eu bod yn 25 mlwydd oed. Carfan fychan iawn o'r boblogaeth fydd y polisi yma'n eu heffeithio. Gall fod hyd at 80 o bobl, ond yn ymarferol bydd yn llai na hyn gan y bydd y mwyafrif eisoes yn derbyn disgownt, eithriad, a/neu Ostyngiad Treth Cyngor, a felly eu hatebolrwydd Treth Cyngor wedi cael ei ddiwallu'n barod. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Dim effaith | Bwriad y polisi fydd rhoi'r un cyfleon i bobl ifanc sy'n gadael gofal i sefydlu eu hunain yn annibynnol, gan nad oes ganddynt y gefnogaeth teuluol fyddai gan y mwyafrif o'r gymdeithas. Mae astudiaethau (e.e. Cymdeithas y Plant) yn dangos mai rhoi'r un cyfleon i bobl ifanc sy'n gadael gofal ag i weddill y boblogaeth fyddai'r polisi hwn, nid rhoi mantais annheg iddynt. |
| **Meithrin perthnasau da** | Dim effaith | Er fod posibilrwydd bychan y byddai rhai unigolion yn teimlo'i fod yn annheg fod y bobl ifainc hyn yn derbyn y rhyddhad yma, nid oes tystiolaeth mai hyn yw'r profiad yn yr ardaloedd sydd eisoes wedi mabwysiadu'r polisi. |

**9b)**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim effaith | |
| **Anabledd** | Dim effaith | |
| **Rhyw** | Dim effaith | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim effaith | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim effaith | |
| **Crefydd neu gred** | Dim effaith | |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim effaith | |
| **Oedran** | Positif | Mae’r polisi hwn wedi ei anelu yn benodol at garfan o’r boblogaeth sydd o dan 25 oed, ond nid ydym yn credu fod hyn am gael effaith negyddol ar unrhyw un ar sail oedran. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim effaith | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim effaith | |

## 10) MYND I'R AFAEL Â'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Ar sail ystyriaeth fanwl o'r categorïau cymorth, rydym ni'n gweld effaith bositif ar y bobl ifanc sy'n gadael gofal. Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol o safbwynt cydraddoldeb. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Dim angen camau pellach. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nac Oes |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er fod yr asesaid uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Rydym o'r farn fod y polisi yn ystyried yr amgylchiadau all godi, ond byddwn yn adolygu'r Polisi wrth i ni ddelio â cheisiadau, ac yn addasu petai angen. |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Y Cabinet i benderfynu ar 31 Gorffennaf 2018. |